



Cyngor Dinas Casnewydd

Cynnig Adrefnu Ysgolion

Adroddiad ar yr Ymgynghoriad

Cynyddu capasiti Ysgol Bryn Derw gan 28 o leoedd disgyblion o fis Ebrill 2022

Cyfnod Ymgynghori Ffurfiol:
21 Mehefin 2021 – 1 Awst 2021

Diben

Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, Tachwedd 2018

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys yr adrannau canlynol:

- Y Cynnig
- Ymgysylltu â Rhanddeiliaid
- Llais y Dysgwr
- Ymatebion o'r Ymgynghoriad
- Ymateb Estyn
- Asesiad o'r Cynnig
- Argymhellion
- Atodiadau

Y Cynnig

Mae'r adroddiad ymgynghori hwn yn ymwneud â chynnig i gynyddu capasiti Ysgol Bryn Derw gan 28 o leoedd disgyblion o fis Ebrill 2022 drwy ddefnyddio adeilad gwag Ysgol Feithrin Kimberley. Byddai adnewyddu'r safle hwn yn helpu i ddatblygu cyfleusterau ychwanegol ar gyfer Ysgol Bryn Derw, drwy greu canolfan loeren bwrpasol, heb unrhyw effaith andwyol ar y ddarpariaeth yn yr ysgol, nac yn wir ar unrhyw ysgol arall yn y ddinas.

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Rhodddwyd gwahoddiad i'r rhanddeiliaid a amlinellir isod gymryd rhan, ac anfonwyd e-bost gyda dolen i'r pecyn ymgynghori ar wefan y Cyngor:

- Pennaeth, athrawon, staff a chorff llywodraethu Ysgol Bryn Derw;
- Disgyblion yn Ysgol Bryn Derw;
- Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid disgyblion sy'n mynd i Ysgol Bryn Derw;
- Pennaeth athrawon , staff a chorff llywodraethu Ysgol Maes Ebwy;
- Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid plant sy'n mynd i Ysgol Maes Ebwy;
- Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid disgyblion sy'n mynychu'r Dosbarth Cyfathrebu yn Ysgol Feithrin Kimberley ar hyn o bryd;
- Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid plant sy'n mynd i ddosbarthiadau mewn Canolfannau Adnoddau Dysgu ar draws y Ddinas;
- Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid plant sydd â diagnosis ASA ac sy'n mynd i leoliadau y tu allan i'r Ddinas;
- Pennaethiaid a Chyrrff Llywodraethu pob ysgol arall yng Nghasnewydd;
- Holl aelodau etholedig Cyngor Dinas Casnewydd;
- Pob Cyngor Cymuned yng Nghasnewydd;
- Gweinidogion Cymru;
- Aelodau'r Senedd (AS Cymru) ac Aelodau Seneddol (ASau) sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan yr ysgol sy'n destun y cynnig;
- Awdurdodau Lleol eraill ledled rhanbarth Consortiwm De-ddwyrain Cymru, gan gynnwys adrannau trafndiaeth perthnasol;
- Gwasanaeth Cyflawni Addysg De-ddwyrain Cymru;
- Yr Eglwys yng Nghymru, Esgobaeth Trefynwy;
- Yr Archesgobaeth Gatholig;
- Estyn;
- Undebau Llafur athrawon a staff sy'n cynrychioli athrawon a staff Ysgol Bryn Derw;
- Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant;
- Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent;
- Heddlu Gwent;
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru;
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan;
- Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Canolfan Serennu Casnewydd;
- SNAP Cymru;
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent;
- Gwasanaethau Ataliol.

Ysgolion yr effeithir arnynt

Yr unig ysgol y mae'r cynnig hwn yn effeithio'n uniongyrchol arni yw **Ysgol Bryn Derw**.

Dosbarthu Gwybodaeth

Yn ogystal â'r ddogfen ymgynghori ffurfiol (y bri ddogfen) cafodd fersiwn addas i Blant a Phobl Ifanc a fersiwn sy'n addas i ASD eu cynhyrchu hefyd, er mwyn helpu i sicrhau bod y broses ymgynghori yn gynhwysol ac yn hygyrch i bawb dan sylw. Darparwyd copïau caled o'r tair dogfen i Ysgol Bryn Derw. Roedd modd gofyn am gopïau caled hefyd drwy e-bostio school.reorg@newport.gov.uk, ac roedd y rhain ar gael yn ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg, er na dderbyniwyd unrhyw geisiadau o'r fath.

Digwyddiadau Galw Heibio

Oherwydd y sefyllfa barhaus o ran iechyd y cyhoedd, ac yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, ni threfnwyd unrhyw ddigwyddiadau ymgynghori wyneb yn wyneb ar gyfer yr ymgynghoriad hwn. Hysbyswyd rhanddeiliaid y gellid cyflwyno cwestiynau ynghylch y cynnig i school.reorg@newport.co.uk ac y byddai swyddogion y Cyngor yn ateb yn ddiymdroi er mwyn sicrhau y gellid cyflwyno ymatebion sy'n seiliedig ar wybodaeth yn ystod y cyfnod ymgynghori. Ni dderbyniwyd cwestiynau yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Sesiwn Rhieni Ysgol Bryn Derw

Cynigiwyd sesiwn galw heibio rithwir drwy Microsoft Teams i rieni disgyblion Ysgol Bryn Derw gan y Pennaeth, er mwyn caniatáu i rieni roi sylwadau neu ofyn cwestiynau am y cynnig. Roedd y sesiwn i fod i gael ei chynnal ar ddydd lau 8 Gorffennaf 2021 rhwng 16:00 a 18:00, a byddai wedi cael ei harwain gan swyddogion o'r Gwasanaeth Addysg. Fodd bynnag, ni fynegodd unrhyw rieni ddiddordeb mewn mynychu ac felly cafodd y digwyddiad ei ganslo.

Llais y Dysgwr

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i gael barn dysgwyr, ac oherwydd y sefyllfa bresennol o ran iechyd y cyhoedd, hwyluswyd hyn drwy gynnal sesiynau Holi ac Ateb i ddisgyblion ar Microsoft Teams, yn hytrach na gweithdai wyneb yn wyneb. Ceir manylion y sesiynau a gynhaliwyd yn y tabl isod:

Ysgol	Mynychwyr	Dyddiad
Ysgol Bryn Derw	1x Athro, 8x Disgybl (Grŵp oedran uwchradd)	05/07/2021
Ysgol Bryn Derw	2x Athro, 15x Disgybl (o 2 ddsbarth o grwpiau oedran Cynradd ac Uwchradd cymysg)	05/07/2021

Gofynnodd y disgyblion nifer o gwestiynau tebyg a gwnaed nifer o sylwadau tebyg ganddynt yn ystod y sesiynau, ac maent wedi'u crynhoi yn y tabl isod:

Cwestiwn/Sylw	Ateb
Mae'r cynnig yn syniad da gan y bydd mwy o le i blant eraill yn yr ysgol.	Yn anffodus, ni ellir gwneud yr ysgol bresennol yn fwy, felly bydd adeilad arall yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y disgyblion ychwanegol.


Mae'r cynnig yn syniad da gan y bydd yr ysgol yn gwneud mwy o arian.	Mae'r Cyngor yn gobeithio arbed arian gan y gall anfon plant i ysgolion y tu allan i Gasnewydd fod yn ddrud.
Mae'r cynnig yn syniad da gan y bydd mwy o blant yn gallu mynychu Ysgol Bryn Derw a bydd yn rhaid i lai o blant fynychu ysgolion sydd ymhellach i ffwrdd.	Bydd, bydd hyn yn caniatáu i fwy o ddisgyblion fynychu'r ysgol yn nes at eu cartref.
Faint mae'r ysgol newydd yn mynd i gostio i'r Cyngor?	Bydd y gwaith adeiladu yn costio tuag £1miliwn ac mae'r Cyngor wedi derbyn grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer hyn.
Ble mae'r disgyblion yn mynd i fwyta cinio?	Ni fydd neuadd fwyta bwrpasol, felly bydd y disgyblion yn bwyta cinio mewn ardal ganolog a rennir.
Pam bydd y simnai'n cael ei symud?	Mae gan ysgolion hŷn systemau boeleri mawr ac mae angen iddynt ddefnyddio simneiau. Fodd bynnag, bydd gan yr adeilad newydd foeler newydd ac ni fydd angen y simnai mwyach.
Pa mor fawr yw'r ysgol newydd?	Mae'r adeilad newydd yn llawer llai na'r brif ysgol. Bydd 3 ystafell ddosbarth gyda thua 7-8 o blant ym mhob un.

Ym mhob sesiwn, roedd pob disgybl yn cefnogi'r cynnig.

Mae'r Cyngor yn ddiolchgar iawn i'r staff a'r disgyblion a gymerodd ran, a hoffai ddiolch iddynt am eu cyfraniadau gwerthfawr i'r broses hon.

Ymatebion o'r Ymgynghoriad

Cafwyd cyfanswm o 5 o ymatebion yn ystod y cyfnod ymgynghori. Roedd 3 o ymatebwyr (60%) yn cefnogi'r cynnig a dywedodd 2 ymatebydd (40%) nad oeddynt yn ei gefnogi.



Gwnaed 4 ymateb drwy'r ffurflen ymateb safonol (gweler Atodiad A), gan gynnwys un gan riant / gofalwr ac un gan Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Bryn Derw. (Ni ddatgelodd y ddau ymatebydd arall eu grŵp rhanddeiliaid).

Yn ogystal, cyflwynwyd ymateb i'r ymgynghoriad drwy e-bost gan Estyn (Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru)

Sylwadau/Pryderon

Codwyd pryder gan riant nad yw'n cefnogi'r cynnig:

"Rwy'n poeni'n fawr am yr effaith ar y disgyblion presennol. Amharwyd arnyn nhw'n fawr gan y cynnydd diwethaf. Dyw disgyblion ddim angen mwy o darfu."

Mewn ymateb, hoffai'r Cyngor sicrhau rhieni, gan fod y cynnig yn ymwneud â sylfaen lloeren bwrpasol ar gyfer dysgwyr Cyfnod Sylfaen sy'n ymuno â'r ysgol, na fydd llawer o darfu ar ddisgyblion presennol. Mae'r Cyngor o'r farn bod manteision darparu lleoedd ychwanegol yn drech nag effaith unrhyw amhariad posibl ar ddysgwyr presennol yr ysgol.

Yn ei hymateb, mae Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Bryn Derw yn cadarnhau bod y Corff Llywodraethu'n cefnogi'r cynnig ac yn croesawu'r cynnydd mewn capasiti ar gyfer yr ysgol fel y gall lleoliadau priodol gyda staff medrus ac arbenigol iawn fod ar gael i fwy o blant a phobl ifanc ag ASD yng Nghasnewydd.

Ymateb Estyn

Mae'r ymateb llawn gan Estyn yn Atodiad B yr adroddiad hwn. Yn gryno, dywed ymateb Estyn bod y cynnig yn debygol o leiaf o gynnal safonau presennol addysg a darpariaeth yr ardal, a bod:

- y cyngor yn nodi sail resymegol glir dros ei gynnig ac yn dangos sut mae'r cynnig yn mynd i'r afael â'r galw cynyddol am ddarpariaeth addysg arbenigol ledled dinas Casnewydd.
- Mae'r cynigydd wedi ymgynghori mor eang â phosibl yng nghyd-destun y pandemig presennol, gan gynnwys gyda phlant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr, staff ysgol, ystod eang o bartïon â diddordeb ac aelodau o'r cyhoedd.
- Mae'r cynnig yn nodi tair risg bosibl yn gysylltiedig â'r cynnig, ac yn awgrymu eu heffaith bosibl a'r camau y gallai'r Cyngor eu rhoi ar waith i liniaru'r risg.
- Mae'r awdurdod lleol wedi rhoi ystyriaeth briodol i ddata sy'n berthnasol i statws addysgol yr ysgol.

Er gwaethaf hyn, mae'r ymateb hefyd yn nodi rhai anfanteision nad yw'r cynnig yn mynd i'r afael â nhw: y gofyniad i ddisgyblion drosglwyddo i safle newydd pan ddaw eu haddysg Cyfnod Sylfaen i ben; yr angen i'r Pennaeth weithio ar ddau safle, a'r cyfrifoldebau ychwanegol ar y Corff Llywodraethu wrth reoli ysgol dau-safle.

Ymateb y Cyngor

Y disgwyl yw y byddai profiad y disgybl o'r un ansawdd uchel ar y ddau safle, ac nid ystyrir felly fod y pellter daearyddol rhwng y ddau yn rhwystr i'r ddarpariaeth. I gefnogi hyn:

- Bydd aelod dynodedig o Uwch Dîm Arwain yr ysgol yn gyfrifol am oruchwyllo a chyfarwyddo'r ddarpariaeth ar y safle newydd, gyda hyn yn cael ei hwyluso gan uwch dîm estynedig;
- Byddai timau gweinyddu, gofalu a glanhau yn cael eu hehangu i sicrhau'r un ansawdd yn narpariaeth y ddau safle.
- Trefnir staffio i'r un cymarebau staff-disgyblion ag ar y prif safle, ac felly bydd staff ychwanegol yn cael eu recriwtio. Bydd gan bob dosbarth newydd dîm staff cyson, er y bydd disgwyl i bob aelod staff fod ar gael i weithio ar y ddau safle yn ôl y gofyn
- Bydd cymorth proffesiynol, megis gan therapyddion a seicolegwyr, yn parhau i fod ar gael ar sail anghenion yn y ddau safle, yn ogystal â mewnbwn gan staff arbenigol mewnol y Cyngor;
- Bydd gan ddisgyblion sydd wedi'u lleoli yn y ddarpariaeth lloeren fynediad i gerbyd i'w cludo i'r prif safle i gael mynediad at gyfleusterau fel y trampolîn Rebound Therapy.

Mae ymateb Estyn hefyd yn nodi bod y Cyngor wedi ystyried i ba raddau y mae'r cynnig hwn yn cefnogi'r targedau o fewn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Nid yw'r cynnig yn ceisio ehangu na lleihau argaeledd y ddarpariaeth Gymraeg yng Nghasnewydd. Fodd bynnag, nid yw'r cynigydd yn nodi sut y bydd disgyblion sy'n siarad Cymraeg ac sydd ag ASD yn cael eu cefnogi gan yr awdurdod lleol.

Ymateb y Cyngor

Gan fod Ysgol Bryn Derw yn ysgol cyfrwng Saesneg, mae wedi a bydd yn parhau i ddilyn pob agwedd ar y cwricwlwm cenedlaethol mewn perthynas â'r Gymraeg fel ail iaith. O dan gynnig ar wahân, bydd Canolfan Adnoddau Dysgu Cyfrwng Cymraeg ar gael yn Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli pan fydd yr ysgol yn symud i'w lleoliad parhaol ym mis Medi 2023.

I gloi, cadarnhaodd Estyn farn y bydd y cynnig presennol o leiaf yn cynnal y ddarpariaeth addysg ar gyfer disgyblion yn nalgylch Ysgol Bryn Derw.

Asesiad o'r Cynnig

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori cyhoeddus, mae'r Cyngor o'r farn mai'r cynnig yw'r ateb gorau a mwyaf cyraeddadwy i'r pwysau lleol ar gyfer lleoliadau addysg arbenigol i ddisgyblion ag Anhwylder ar y Sbectwm Awtistig. Mae'r cynnig yn dal i fod yn well na'r opsiynau amgen sydd ar gael:

Gwneud dim – Byddai capasiti Ysgol Bryn Derw yn parhau yn 68. Bydd y galw am leoedd yn y ddinas yn parhau i fod yn fwy na'r cyflenwad, a bydd yn rhaid i'r Cyngor ariannu lleoliadau y tu allan i'r sir a chludiant. Byddai hyn yn debygol o gael effaith negyddol ar les disgyblion a'r amgylchedd. Byddai adeilad meithrin Kimberley yn parhau'n wag nes y gellid nodi defnydd addas neu werthu'r adeilad a'r safle.

Ehangu Ysgol Bryn Derw ar safle presennol yr ysgol - Cynyddu capasiti'r ysgol drwy adeiladu estyniad 4 ystafell dodosbarth i'r ysgol bresennol. Er y byddai'r opsiwn hwn yn darparu capasiti ychwanegol ac yn atal yr angen i weithredu dros ddau safle, ni ellir cyflawni'r opsiwn am ddau reswm:

- 1) Byddai angen buddsoddiad cyfalaf ychwanegol sylweddol

2) Nid yw'r safle presennol yn addas ar gyfer estyniad oherwydd topograffeg y safle a'i statws rhestredig.

Gwneud mwy – Sefydlu ysgol arbennig newydd i ddarparu lleoedd ychwanegol i ddisgyblion sydd â diagnosis Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig. Er y byddai'r opsiwn hwn o bosibl yn darparu mwy o leoedd yn y tymor hir, mae sawl anfantais sylweddol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn:

- 1) Nid oes safle nac adeilad addas ar gael yn rhwydd at y diben hwn
- 2) Byddai'r opsiwn hwn yn golygu buddsoddiad cyfalaf sylweddol mwy na'r cyllid cynnal sydd ar gael
- 3) Byddai'r opsiwn hwn yn gofyn am recriwtio nifer sylweddol o staff ychwanegol ac yn golygu costau refeniw cylchol uwch
- 4) Byddai'r opsiwn hwn yn cymryd llawer mwy o amser i'w gyflawni ac mae angen darparu lleoedd ychwanegol ar frys.
- 5) Byddai adeilad meithrin Kimberley yn parhau'n wag nes y gellid nodi defnydd addas neu werthu'r adeilad a'r safle.

Argymhellion

Argymhellir ceisio caniatâd i symud y cynnig hwn yn ei flaen trwy gyhoeddi hysbysiad statudol. Caiff y penderfyniad hwn ei gyfeirio at yr Aelod Cabinet dros Addysg a bydd yn mynd trwy broses ddemocrataidd gytunedig y Cyngor.

Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), caiff yr adroddiad hwn ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd yn www.newport.gov.uk/cy/Schools-Education/School-reorganisation/School-reorganisation.aspx

I wneud cais am gopi caled (papur) o'r ddogfen hon cysylltwch â Swyddog Datblygu a Gwybodaeth Addysg Cyngor Dinas Casnewydd trwy ffonio 01633 656656 neu e-bostio school.reorg@newport.gov.uk

Atodiad A

Profforma Ymateb i'r Ymgynghoriad

Mae'r ymateb hwn yn ymwneud â'r bwriad i ehangu Ysgol Bryn Derw 28 o leoedd disgyblion o fis Ebrill 2022.

Mae eich barn chi'n bwysig. Rhannwch eich sylwadau â ni am y cynnig trwy lenwi'r holiadur hwn.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw canol nos, nos Lun 6 Ebrill 2020. Sylwer na fydd ymatebion negyddol a wneir i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu hystyried fel gwrthwynebiadau i'r cynnig; byddant yn cael eu cofnodi fel sylwadau negyddol. Dim ond ar ôl cyhoeddi hysbysiad statudol y gellir cofrestru gwrthwynebiadau.

1) A ydych yn cefnogi'r cynnig i:

Gynyddu capasiti Ysgol Bryn Derw 28 o leoedd o fis Ebrill 2022?

Ydw Nac ydw Yn rhannol

Defnyddiwch y blwch isod i roi sylwadau neu i esbonio pa ran o'r cynnig nad ydych yn ei chefnogi

2) A ydych chi'n credu y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?

Cadarnhaol Negyddol Dim effaith

3) Os ydych o'r farn y caiff effaith negyddol, pa gamau y gallem eu cymryd i leihau neu osgoi hyn a gwella'r effeithiau cadarnhaol?

4) A ydych yn credu y bydd y cynnig yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Ydw Nac ydw

Nodwch pwy ydych chi (e.e. rhiant/gofalwr plentyn sy'n mynd i ysgol feithrin leol)

--

Dewiswch eich grŵp Ethnig			
Gwyn Prydeinig		Asiaidd-Bangladeshaid	
Gwyn Gwyddelig		Asiaidd-Indiaidd	
Unrhyw gefndir Gwyn arall (nodwch): _____		Asiaidd-Pacistanaid	
		Unrhyw gefndir Asiaidd arall	
Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig		Du Caribiaidd	
Gwyn ac Asiaidd		Du Affricanaidd	
Gwyn a Du Affricanaidd		Unrhyw gefndir Du arall	
Gwyn a Du Caribiaidd		Arabaid	
Unrhyw gefndir Cymysg arall (nodwch): _____		Tsieineaidd	
		Unrhyw grŵp ethnig arall (nodwch): _____	
Asiaidd-Bangladeshaid			
Asiaidd-Indiaidd		Gwell gennyf beidio â dweud	
Asiaidd-Pacistanaid			

Y Gymraeg			
A ydych chi'n ystyried eich hun yn siaradwr Cymraeg?			
Ydw		Nac ydw	Gwell gennyf beidio â dweud

Cyfrifoldebau Gofalu			
A ydych chi'n gofalu am blant oedran ysgol?			
Ydw		Nac ydw	Gwell gennyf beidio â dweud
A ydych chi'n gofalu am blant cyn ysgol?			
Ydw		Nac ydw	Gwell gennyf beidio â dweud
A ydych chi'n gofalu am oedolyn dibynnol neu blentyn sy'n hŷn nag oedran ysgol?			
Ydw		Nac Ydw	Gwell gennyf beidio â dweud

Os hoffech gael eich hysbysu pan gyhoeddir yr adroddiad ymgynghori, nodwch eich manylion cyswllt isod:

E-bost: _____

Cyfeiriad post: _____

Atodiad B

Ymateb Estyn i'r cynnig gan Gyngor Dinas Casnewydd i gynyddu capasiti Ysgol Bryn Derw gan 28 lle o fis Ebrill 2022.

Cyflwyniad

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd

bynag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr.

Crynodeb / Casgliad

Mae'r cynnig gan Gyngor Dinas Casnewydd i gynyddu capasiti Ysgol Bryn Derw gan 28 lle o fis Ebrill 2022 trwy sefydlu canolfan loeren ddynodedig i'r Cyfnod Sylfaen gan ddefnyddio adeilad Ysgol Feithrin Kimberley, a ddaw'n wag ym mis Gorffennaf 2021.

Cynigir y bydd y gwaith y mae angen ei wneud i adnewyddu'r adeilad yn dechrau ym mis Gorffennaf 2021 ac y bydd wedi'i gwblhau ar ddechrau 2022. Felly, bydd y lleoedd ysgol ychwanegol ar gael o fis Ebrill 2022. O ganlyniad, bydd capasiti Ysgol Bryn Derw yn cynyddu o 68 i 96 o fis Ebrill 2022.

Mae'r Cyngor yn nodi rhesymeg glir ar gyfer ei gynnig, ac yn dangos sut bydd y cynnig yn mynd i'r afael â'r galw cynyddol am ddarpariaeth addysg arbenigol ar draws dinas Casnewydd. Mae'r galw am leoedd mewn darpariaeth arbenigol mewn Anhwyllder y Sbectwm Awtistig yn uwch na'r ddarpariaeth bresennol sydd ar gael yn y ddinas. Bydd ehangu'r ysgol yn lleihau'r angen i ddarparu lleoliadau y tu allan i'r sir ar gyfer disgyblion.

Mae'r cynigiwr wedi ymgynghori mor eang ag y bo modd o ganlyniad i'r pandemig presennol, yn cynnwys gyda phlant a phobl ifanc, rhieni / gofawyr, staff ysgol, ystod eang o gyfranogion ac aelodau'r cyhoedd.

Mae Estyn o'r farn fod y cynnig presennol yn debygol o gynnal safonau presennol y ddarpariaeth addysgol yn yr ardal, o leiaf.

Disgrifiad a manteision

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn amlinellu'n glir sut mae'r cynnig yn mynd i'r afael â'r galw cynyddol am ddarpariaeth addysg arbenigol ar draws dinas Casnewydd.

Mae Ysgol Bryn Derw yn gwasanaethu'r ddinas gyfan ac yn cefnogi'r ddarpariaeth addysg ar gyfer plant rhwng 3 ac 19 oed sydd wedi cael diagnosis o Anhwyllder y Sbectwm Awtistig

(ASA) ac anawsterau dysgu cysylltiedig. Ar hyn o bryd, gall yr ysgol ddarparu lle ar gyfer 68 o ddisgyblion, ond mae cyfrifiad disgyblion Hydref 2020 yn dangos bod 71 o ddisgyblion wedi eu cofrestru, sy'n golygu bod gormod o alw am leoedd yn yr ysgol.

Mae'r galw am leoedd mewn darpariaeth arbenigol ar gyfer ASA yn uwch na'r ddarpariaeth bresennol sydd ar gael yn y ddinas. Mae tystiolaeth o'r galw am leoedd arbenigol dros y blynyddoedd diwethaf yn dangos y bydd y galw am leoedd derbyn yn rhagori'n gyson ar nifer y lleoedd sydd ar gael yn Ysgol Bryn Derw o dan ei threfniadau capasiti presennol.

Mae'r cynnig yn rhoi ystyriaeth briodol i'r manteision a'r anfanteision yn gysylltiedig ag ehangu'r ysgol trwy sefydlu canolfan loeren ddynodedig i'r Cyfnod Sylfaen gan ddefnyddio adeilad Ysgol Feithrin Kimberley. Mae'r cynnig yn dangos yn glir y bydd ehangu'r ysgol yn lleihau'r angen i ddarparu lleoliadau drud y tu allan i'r sir ar gyfer disgyblion sy'n byw yng Nghasnewydd. Byddai hefyd yn rhoi cyfle i ddisgyblion sy'n mynychu darpariaeth y tu allan i'r sir ar hyn o bryd ailintegreiddio yn ôl yn eu hardal leol i barhau â'u haddysg. Hefyd, byddai'n lleihau amser teithio i ddisgyblion sy'n mynychu lleoliadau y tu allan i'r sir ar hyn o bryd. Byddai disgyblion ag ASA sy'n ei chael yn anodd bod mewn ardaloedd swllyd a phrysur yn gallu cael mwy o le ac ardaloedd tawelach.

Mae'r anfanteision a nodwyd yn cynnwys trosglwyddo i safle newydd pan fydd eu darpariaeth Cyfnod Sylfaen yn dod i ben ar y safle newydd, y pennaeth yn gweithio rhwng safleoedd a'r corff llywodraethol yn gyfrifol am reoli ysgol sydd wedi'i rhannu rhwng safleoedd. Nid yw'r awdurdod lleol yn nodi sut bydd yn mynd i'r afael â'r materion hyn.

Mae'r Cyngor wedi ystyried i ba raddau y mae'r cynnig hwn yn cefnogi targed y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Nid yw'r cynnig yn ehangu nac yn lleihau argaeledd darpariaeth Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw'r cynigiwr yn nodi sut bydd disgyblion ag ASA sy'n siarad Cymraeg yn cael eu cefnogi gan yr awdurdod lleol.

Mae'r cynnig yn awgrymu'n rhesymol na fydd effaith niweidiol ar gludiant o'r cartref i'r ysgol; yn hytrach, gallai hyn gael effaith gadarnhaol ar deithio i ddysgwyr gan y bydd yn lleihau nifer teithiau'r disgyblion i leoliadau y tu allan i ddinas Casnewydd.

Mae'r cynnig yn nodi'r effaith y bydd ehangu'r ysgol yn ei chael ar lefelau staffio, ac yn awgrymu y gellir rheoli hyn yn effeithiol trwy'r trefniadau presennol ar gyfer recriwtio staff.

Mae'r cynnig yn nodi tair risg bosibl yn gysylltiedig â'r cynnig, yn awgrymu eu heffaith bosibl, a chmau y gallai'r Cyngor eu cymryd er mwyn lliniaru'r risg. Er enghraifft, mae'r cynnig yn nodi bod y galw am y ddarpariaeth yn lleihau fel risg bosibl. Er mwyn lliniaru'r risg hon, maent yn awgrymu, er bod y risg hon yn annhebygol, y

gellid addasu'r ysgol i wneud lle i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol eraill o'r sector ysgolion. Mae'r adran hon yn awgrymu bod y Cyngor wedi paratoi'n dda i sicrhau llwyddiant y cynnig.

Mae'r Cyngor wedi nodi tri opsiwn arall posibl i'w hystyried ynglŷn â'r cynnig, yn cynnwys cynnal y sefyllfa bresennol, cynyddu capasiti'r adeilad ysgol presennol, ac adeiladu ysgol arbennig arall. Maent wedi ystyried cryfderau, gwendidau a risgiau pob opsiwn.

Agweddau addysgol ar y cynnig

Mae'r awdurdod lleol wedi rhoi ystyriaeth briodol i ddata sy'n berthnasol i sefyllfa addysgol yr ysgol. Mae'r Cyngor yn credu'n gryf y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth ac ansawdd deilliannau addysgol yn y sector ysgolion arbennig. Dywedant fod Ysgol Bryn Derw eisoes wedi'i harfogi'n dda i gyflwyno cwricwlwm llawn ar draws pob grŵp blwyddyn o'r Meithrin i Flwyddyn 14, ac na fydd cynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael yng nghymuned yr ysgol yn cael unrhyw effaith niweidiol ar y ddarpariaeth hon.

Mae'r cynnig yn ystyried effaith debygol y cynnig ar safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth. Yn adroddiad diweddaraf y consortiwm lleol yn 2019, categoreiddiwyd yr ysgol yn felyn, sy'n dangos bod angen lefel fach o gymorth ar yr ysgol i wella safonau bryd hynny. Yn yr arolygiad diweddaraf o'r ysgol gan Estyn ym mis Mawrth 2020, gwerthuswyd bod safonau presennol yr ysgol, lles ac agweddau at ddysgu, gofal, cymorth ac arweiniad, ynghyd ag arweinyddiaeth yn rhagorol. Barnwyd bod addysgu a phrofiadau dysgu yn dda.

Mae'r awdurdod lleol yn credu na fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith niweidiol ar ysgolion eraill Casnewydd. Maent yn cydnabod y gallai gael effaith fach ar ddarparwyr y tu allan i'r sir, oherwydd gallai nifer y disgyblion yng Nghasnewydd sydd angen lleoliadau arbenigol y tu allan i'r sir leihau o ganlyniad i'r cynnig hwn.

Mae'r cynigiwr wedi cynnal asesiad effaith ar gydraddoldeb o'r cynnig ac yn honni'n rhesymol y bydd ehangu'r ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar blant ag ASA trwy gynyddu darpariaeth amgylchedd dysgu cyfoethog. Mae eu hasesiad Tegwch a Chydraddoldeb yn datgan yn glir nad oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar ddisgyblion sydd ag unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig a restrir.